# Blwyddyn y Teigr

## Adnoddau i helpu eich ysgol i ddathlu'r Flwyddyn Newydd

Pecyn addysg ar gyfer ysgolion cynradd

www.britishcouncil.org/school-resources

@Schools_British



# Cyflwyniad

**Yn ôl y Calendr Lloerol Tsieineaidd, mae Blwyddyn y Teigr yn dechrau ar y cyntaf o Chwefror 2022. Mae'r pecyn addysg i ysgolion cynradd yma'n cynnwys gwybodaeth a gweithgareddau i helpu athrawon a disgyblion ddysgu mwy am yr ŵyl wanwyn bwysig yma ac am iaith a diwylliant Tsieina.**

Gall eich disgyblion ddarllen stori sy'n esbonio pam nad yw'r llew yn un o'r deuddeg o anifeiliaid yn y Sidydd Tsieineaidd, a sut y cafodd y teigr farciau ar ei dalcen. Yn ogystal, gallant ddysgu mwy am anifeiliaid sydd dan fygythiad fel teigr De Tsieina, a dysgu geiriau Tsieinëeg sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a chadwraeth. Mae cyfle i fod yn greadigol hefyd wrth greu barcut dan do a ffilmiau rhagflas.

# Gŵyl y Gwanwyn Chūn Jié（春节）

Yn niwylliant Tsieina, Gŵyl y Gwanwyn yw gŵyl bwysicaf y flwyddyn. Yn ystod yr ŵyl, mae teuluoedd yn dod at ei gilydd ac yn anrhydeddu eu cyndeidiau. Cynhelir perfformiadau cyhoeddus o ddawns y llew ac mae pobl yn rhoi arian mewn amleni coch a'u rhoi yng ngheg y llew – i ddod â lwc dda. Yn draddodiadol, mae neiniau a theidiau / mamau-cu a thadau-cu yn rhoi arian mewn amleni coch yn anrheg i'w hwyrion a'u hwyresau. Yr enw ar yr arfer yma yw ya suì qián. Erbyn heddiw, rydych lawn mor debygol o weld cymeriadau cartŵn ar yr amleni ag yr ydych o weld symbolau traddodiadol.





# Cynnwys


**Cyflwyniad**
tud 2

**Stori sy'n esbonio pam nad oes Llew yn y Sidydd Tsieineaidd**
tud 4

**Rhywogaethau sydd dan fygythiad – Teigr De Tsieina**
tud 8

**Gwers Tsieinëeg**
tud 11

**Barcutiaid Tsieineaidd – creu eich barcut eich hunan**
tud 13

**Llythyron o Tsieina**
tud 16


UCL Institute of Education


**Cysyniad a gwaith datblygu'r adnodd gan y British Council.**

Ysgrifennwyd gan James Trapp, Ymgynghorydd Cynradd Sefydliad Confucius ar gyfer Ysgolion – Sefydliad Addysg Coleg Prifysgol Llundain (UCL) ac Alison Willmott, Ymgynghorydd Addysg.

# Stori sy'n esbonio pam nad oes Llew yn y Sidydd Tsieineaidd



**Ar ôl rhannu teitl y stori werin yma gyda'ch disgyblion, gofynnwch iddyn nhw weithio gyda phartner i feddwl am eu syniadau eu hunain i esbonio pam nad yw'r Llew yn un o 12 anifail y Sidydd Tsieineaidd. Yna, rhannwch eu syniadau gyda gweddill y dosbarth.**

Mae'n siŵr eich bod yn gyfarwydd â stori'r ras fawr a gafodd ei chynnal flynyddoedd maith yn ôl i ddewis pa anifeiliaid fyddai'n rhan o'r Sidydd Tsieineaidd. Mae'n siŵr hefyd eich bod yn cofio sut y llwyddodd y Llygoden Fawr gyfrwys i neidio oddi ar ben yr Ychen ar y llinell derfyn i ennill y ras. Efallai eich bod wedi clywed rhai o'r straeon sy'n esbonio pam na chafodd y Gath ei chynnwys yn y 12 olaf. Ond mae yna straeon eraill am anifeiliaid y Sidydd Tsieineaidd hefyd – ac mae un o'r straeon hynny YN stori am gath...o fath.

Fel mae'n digwydd, mae'n stori am ddwy gath, dwy gath fawr – y Llew a'r Teigr. Amser maith, maith yn ôl, hyd yn oed cyn i'r ras fawr gael ei chynnal, y Llew oedd Brenin yr Holl Anifeiliaid. Petai'r ras wedi cael ei rhedeg bryd hynny, does dim dwywaith y byddai wedi ennill a chymryd y lle blaenaf yn y Sidydd, achos ni fyddai hyd yn oed y Llygoden Fawr gyfrwys wedi meiddio ceisio twyllo'r Llew. Ond ymhell cyn hynny, gan fod yr Ymerawdwr Jâd, Goruchaf Reolwr yr Holl Fydysawd, wedi cael llond bol ar natur greulon a thrahaus y Llew, fe benderfynodd fod yn rhaid cael anifail arall i gymryd ei le. Bryd hynny, doedd y Teigr ddim yn byw ar y Ddaear gan mai ef oedd cadbennaeth byddin yr Ymerawdwr Jâd i fyny yn y nefoedd.

Roedd y Teigr yn arfer bod yn anifail swil iawn ac roedd e'n byw'n dawel ymysg yr anifeiliaid eraill ar y Ddaear. Ond newidiodd pethau pan benderfynodd y Gath (yr heliwr mwyaf clyfar o'r holl anifeiliaid) ei bod yn mynd i ddysgu crefft ymladd a sgiliau brwydro i'r Teigr. Ar ôl hynny, fe dyfodd y Teigr i fod yn ymladdwr penigamp. Nawr, roedd gan y Teigr y sgiliau i drechu unrhyw un - heblaw o bosib, y Gath, a oedd wedi dysgu popeth iddo. Ond gan na wnaethon nhw erioed ymladd â'i gilydd, fyddwn ni byth yn gwybod hynny. Pan welodd yr Ymerawdwr Jâd fod y Teigr bellach yn ymladdwr o fri, fe ddanfonodd orchymyn iddo symud o'r Ddaear i'r nefoedd i arwain y Fyddin Nefol. Ond gwnaeth hynny greu tipyn o broblem. Roedd yr holl anifeiliaid yn ofni'r Teigr yn fawr. Felly, pan welon nhw ei fod wedi gadael y Ddaear, fe aethon nhw allan o reolaeth yn llwyr. Roedden nhw'n rhedeg yn wyllt ymhob man gan ddifetha cnydau pobl, dwyn eu bwyd a hyd yn oed ymosod arnyn nhw. Doedd y bobl ddim yn gwybod beth i'w wneud na ble i droi – felly fe wnaethon nhw droi at yr Ymerawdwr Jâd am help.

Edrychodd yr Ymerawdwr Jâd i lawr ar y Ddaear ac fe welodd beth oedd yn digwydd. Gwelodd fod pethau wedi mynd yn rhy bell, ac roedd e'n teimlo piti dros y bobl. Felly, danfonodd y Teigr yn ôl i'r Ddaear i reoli'r anifeiliaid a rhoi trefn yn ôl ar bopeth yno. Ar ôl dychwelyd, gwelodd y Teigr fod tri anifail yn gyfrifol am arwain yr holl gythrwfl, sef: y Llew, yr Arth a'r Ceffyl. Fe heriodd y Teigr bob un ohonynt yn eu tro i ymladd yn ei erbyn. Ac wrth gwrs, fe gurodd bob un ohonyn nhw. Doedd dim angen y Llew na'r Arth arno, felly rhoddodd orchymyn iddynt redeg yn bell, bell i ffwrdd, a chadw draw oddi wrth bobl o hynny ymlaen. Ond fe roddodd orchymyn i'r Ceffyl aros a chlirio holl lanast yr anifeiliaid a helpu'r bobl i lenwi eu stordai bwyd eto. Ar ôl i bethau dawelu, rhoddodd yr Ymerawdwr Jâd orchymyn i'r Teigr ddychwelyd i'r nefoedd. I nodi buddugoliaeth y Teigr yn erbyn y tri anifail trafferthus - y Llew, yr Arth a'r Ceffyl – fe beintiodd yr Ymerawdwr dair streipen ar draws talcen y Teigr gyda'i fys. Ond nid dyna oedd diwedd pethau. Rhywdro'n ddiweddarach (mae'n anodd dweud pryd yn union achos roedd amser yn wahanol bryd hynny), fe drodd pobl y Ddaear at yr Ymerawdwr Jâd unwaith eto. Fe wnaethon nhw ymbilio arno am help, achos roedd yna grwban môr hud yn dyrnu a chorddi dŵr yr afonydd a'r llynnoedd gan greu llifogydd ymhobman. Danfonodd yr Ymerawdwr Jâd y Teigr yn ôl i lawr i'r Ddaear i ddelio â'r crwban môr. Bu hon yn frwydr lwyddiannus arall i'r Teigr. Yn wir, dyma oedd buddugoliaeth olaf a mwyaf nodedig y Teigr. I nodi'r achlysur arbennig yma, fe wnaeth yr Ymerawdwr Jâd ychwanegu llinell fertigol i'r tair llinell lorweddol ar dalcen y Teigr.

Bellach, roedd y marciau ar dalcen y Teigr yn ffurfio'r arwydd 王. Ystyr yr arwydd yma yw 'brenin' - a dyna sut mae'r marciau wedi aros byth ers hynny. Penderfynodd yr Ymerawdwr Jâd y dylai'r Teigr aros ar y Ddaear am byth, rhag ofn y byddai unrhyw drwbl pellach yn codi yno. Penderfynodd yr Ymerawdwr hefyd y dylai'r Teigr fod yn frenin ar yr holl anifeiliaid. A rhag ofn eich bod yn pendroni pam na chafodd y Teigr ei benodi'n syth fel Anifail Rhif Un yn y Sidydd Tsieineaidd (wedi'r cyfan, fe oedd y brenin) a pham hefyd y gwnaeth y Teigr adael i anifeiliaid eraill ei guro yn Ras y Sidydd...yr ateb yw: achos roedd e'n frenin doeth iawn.



# Gweithgaredd dosbarth

## Yn gyntaf, gofynnwch i'ch disgyblion weithio mewn parau i ateb y cwestiynau isod am y stori. Yna, gofynnwch iddynt baratoi tri o gwestiynau eu hunain am y stori – i'w gofyn i bâr arall yn y dosbarth.

- Yn ôl y stori, beth oedd tasg gyntaf y Teigr?
- Nodwch rai geiriau neu ymadroddion sy'n cael eu defnyddio gan awdur y stori i ddisgrifio'r Llew.
- Pam y gwnaeth yr Ymerawdwr Jâd anfon y Teigr i lawr i'r Ddaear?
- Ydych chi'n gallu enwi'r tri anifail a achosodd lawer o drafferth ar y Ddaear yn y lle cyntaf? Sut cawson nhw eu cosbi?
- Yn eich geiriau eich hun, gwnewch grynodeb o'r digwyddiadau a arweiniodd at benderfyniad yr Ymerawdwr Jâd i roi marciau arbennig ar dalcen y Teigr.
- Mae'r marciau yma'n debyg iawn i arwydd Tsieinëeg; ydych chi'n gwybod pa arwydd?
- Yn ôl awdur y stori, fe wnaeth y Teigr "adael i anifeiliaid eraill ei guro yn Ras y Sidydd...achos roedd e'n frenin doeth iawn." Beth ydych chi'n meddwl yw ystyr y frawddeg yma?
- Ydych chi'n gwybod am unrhyw straeon eraill sy'n esbonio pam fod anifeiliaid yn edrych neu'n ymddwyn fel y maent?
- Petaech chi'n cael cyfle, pa 3 chwestiwn fyddech chi'n eu gofyn i gymeriad yr Ymerawdwr Jâd?



**Amcanion Dysgu:** Ennyn diddordeb y disgyblion mewn stori werin draddodiadol Tsieineaidd a chynnal gweithgareddau i ddyfnhau eu dirnadaeth, dealltwriaeth a'u hymwneud â'r testun.

**Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:** Cymraeg

**Sgiliau craidd a throsglwyddadwy:** Cyfathrebu a chydweithio, llythrennedd digidol, creadigrwydd a dychymyg.

**Paratoi ac adnoddau:** Bydd angen copïau o'r stori arnoch, offer ar gyfer creu ffilm – fel ffonau neu iPadiau, a meddalwedd golygu.

## Yn y gadair boeth

Naill ai, ewch i eistedd yn y ‘Gadair Boeth’ gan chwarae ‘rôl’ yr Ymerawdwr Jâd ac ateb cwestiynnau’r dosbarth eich hunan, neu, dewiswch aelod hyderus o’r dosbarth i wneud hyn yn eich lle.

## Creu ffilm ragflas

Beth am roi her i’ch dosbarth – i greu ffilm ragflas byr i danio brwdfrydedd pobl am stori Blwyddyn y Teigr? Cofiwch, mae’r ffilmiau rhagflas gorau yn ffilmiau syml a bachog sy’n gadael y gynulleidfa ar bigau’r drain eisiau gwybod mwy am y stori.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Gallant gydweithio ar bob agwedd o greu’r ffilm ragflas (dim mwy na dwy funud o hyd), neu gallant ddewis gwahanol rolau fel perfformwyr, ysgrifenwyr, gwneuthurwyr gwisgoedd a phropiau, pobl camera a golygyddion.


Gofynnwch iddynt ddewis genre ar gyfer eu ffilm ragflas – fel ffilm gyffro neu antur – ac yna ysgrifennu sgript fachog o 6 brawddeg.

Gallant lunio bwrdd stori i gydfynd â’r brawddegau hyn gyda syniadau am y gwahanol fathau o siotiau camera i’w defnyddio ar gyfer pob brawddeg, a pha gerddoriaeth (di-freindal) i’w ddefnyddio. Yna, gallant ffilmio a golygu’r ffilm ragflas eu hunain; neu, os oes meddalwedd golygu am ddim ar gael, fel iMovie neu Windows Video Editor, gallant ddefnyddio’r templedi hynny i greu eu ffilm ragflas

Am ysbrydoliaeth ac ambell syniad, cymerwch gip ar y fideo byr yma a gynhyrchwyd gan Aaron Child o Painted Life Productions mewn parrtneriaeth â disgyblion o Ysgol Gynradd Mount Pleasant ar gyfer cystadleuaeth Shropshire Bookfest:

https://www.shropshirebookfest.co.uk/film-trailer-competition-2/

Rhannwch eich byrddau stori a’ch ffilmiau rhagflas ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio’r hashnod #YearOfThe Tiger a’r tag @Schools_British ar Twitter.



# Rhywogaethau Dan Fygythiad
# Teigr De Tsieina



## Gwybodaeth gefndir i'w rannu gyda disgyblion

Teigr De Tsieina yw'r teigr lleiaf sy'n byw ar dir mawr Asia; er hynny gall teigrod gwrywaidd y rhywogaeth yma fod rhwng 6 – 6.5 troedfedd o hyd a phwyso 330 pwys. Maen nhw'n anifeiliaid cryf a chyflym sy'n bwyta cig ac sy'n dueddol o fyw ar eu pen eu hunain. Maen nhw'n gallu rhedeg mor gyflym â 60 milltir yr awr. Yn ogystal â gallu dringo coed a nofio, maen nhw'n gallu hela mamaliaid mawr yn y dŵr ac ar y tir.

Fel pob teigr, mae gan Deigr De Tsieina farciau du arbennig ar hyd ei got oren llachar. Mae patrymau eu cotiau'n gweithio fel cuddliw wrth iddyn nhw symud drwy goedwigoedd trofanol dwys. Oeddech chi'n gwybod fod streipiau pob teigr yn unigryw, fel ôl bys?

Mae patrwm cot pob teigr yn wahanol. Yn ôl y Rhestr Goch o Rywogaethau Dan Fygythiad a gyhoeddir gan Undeb Rhyngwladol Cadwraeth Natur (IUCN), mae Teigr De Tsieina wedi bod mewn perygl mawr ers llawer o flynyddoedd am amryw o resymau – gan gynnwys datgoedwigo a hela. Er bod rhai o'r teigrod yma'n byw mewn sŵau, yn anffodus mae'n fwy na thebyg eu bod wedi diflannu'n llwyr yn y gwyllt bellach. Does dim adroddiadau cadarn fod unrhyw un wedi eu gweld yn y gwyllt ers llawer o flynyddoedd, a dangosodd astudiaeth yn 2001 nad oedd unrhyw dystiolaeth eu bod yn dal i fyw yn eu cynefinoedd arferol.

Nawr, mae cadwraethwyr yn gweithio i achub Teigr De Tsieina rhag diflannu'n llwyr drwy gynlluniau i geisio dychwelyd teigrod sy'n cael eu magu mewn caethiwed yn ôl i'r gwyllt.

**Amcanion Dysgu:** Darganfod gwybodaeth am Deigr De Tsieina ac ymchwilio i rywogaethau sydd dan fygythiad.

**Cysylltiadau Cwricwlwm:** Daearyddiaeth a Gwyddoniaeth

**Sgiliau craidd a phriodoleddau:** Cyfathrebu a chydweithio, llythrennedd digidol, cyfle i ddisgyblion arwain

**Paratoi ac adnoddau:** Bydd angen cysylltiad â'r rhyngrwyd a llyfrau cyfair arnoch.

# Gweithgaredd dosbarth

## Rhannwch luniau o Deigr De Tsieina gyda'r dosbarth a thrafodwch ei sefyllfa fel rhywogaeth sydd dan fygythiad.

- Beth yw ystyr 'rhywogaethau sydd dan fygythiad'?
- Ydych chi'n gallu enwi unrhyw anifeiliaid sydd dan fygythiad?
- Ydych chi'n gallu meddwl am unrhyw anifeiliaid sydd wedi diflannu am byth?
- Beth ydych chi'n credu yw'r rhesymau sy'n esbonio pam fod rhai anifeiliaid dan fygythiad?
- Beth sy'n cael ei wneud i ddiogelu rhywogaethau dan fygythiad?
- Beth allwch chi ei wneud i helpu?
- Beth yw 'ecodwristiaeth'?

Dewch â'r dosbarth at ei gilydd i drafod eu meddyliau a'u syniadau. Trafodwch y prif ffactorau sy'n gallu arwain at beryglu rhywogaethau – fel dinistrio cynefinoedd, llygredd, hela a chyflwyno rhywogaethau newydd i gynefin presennol rhywogaethau dan fygythiad. Gan gyfeirio at y Rhestr Goch o anifeiliaid sydd dan fygythiad a gyhoeddir gan Undeb Rhyngwladol Cadwraeth Natur (IUCN), gofynnwch i'r disgyblion, mewn parau, i ddewis anifail sydd dan fygythiad y maent yn awyddus i ddysgu mwy amdano a chreu ffeil o ffeithiau (gan gynnwys darluniadau) am yr anifail hwnnw. Dylai eu hymchwil ateb y cwestiynau canlynol:

- Ble mae'r anifail yn byw? Ffeindiwch ragor o wybodaeth am y wlad lle mae'n byw a'i gynefin. Cofiwch gynnwys map(iau).
- I ba grŵp o anifeiliaid mae'n perthyn? Beth yw ei brif nodweddion corfforol / ymddangosiadol?
- Beth yw enw gwyddonol yr anifail?
- Beth mae'n ei fwyta?
- Pam fod yr anifail yma dan fygythiad?
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i'w ddiogelu?

Gellir cyfuno dogfennau gorffenedig y disgyblion i greu llyfr darluniadol am rywogaethau dan fygythiad gan y dosbarth cyfan. Gall hwn fod yn gyfrol clawr caled ar gyfer llyfrgell yr ysgol neu'n gyfrol ddigidol i'w lawrlwytho.

# Beth alla i wneud am hyn?

**Esboniwch wrth y dosbarth fod rhai llywodraethau wedi pasio deddfau i stopio pobl rhag hela rhai mathau o anifeiliaid a bod sefydliadau fel Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd (WWF) yn ymgyrchu i achub anifeiliaid sydd dan fygythiad ac mewn perygl o ddiflannu'n llwyr.**

Efallai y gallech wahodd cynrychiolydd o un o'r sefydliadau hyn i ddod i siarad â'ch disgyblion.


Atgoffwch y disgyblion fod pob unigolyn yn gallu gwneud gwahaniaeth a bod ffyrdd syml y gallant helpu i ddiogelu'r amgylchedd. Gofynnwch iddynt lunio ymgyrch i hybu un o'r canlynol:

- Byddwch yn ofalus gyda sbwriel – i stopio gwastraff a sbwriel rhag cael ei olchi i mewn i afonydd a moroedd.
- Annog pobl i ailgylchu ac ailgylchu'n bwrpasol, yn ogystal â phrynu nwyddau cynaliadwy.
- Dysgwch am rywogaethau sydd dan fygythiad yn eich ardal ac annogwch bobl i ymuno i helpu i sicrhau nad oes mwy o anifeiliaid dan fygythiad.
- Ceisiwch wneud yn siŵr fod eich cartref a'ch ysgol yn ystyriol o fywyd gwyllt.

**Gweithgareddau gydag Ysgol Bartner**

Os oes gyda chi ysgol bartner fe allech:

- rannu eich ffeiliau gwybodaeth
- cymharu rhywogaethau sydd dan fygythiad yng ngwledydd eich gilydd a chymharu'r camau sy'n cael eu cymryd i'w diogelu.



# Taflen wybodaeth Geirfa

**Mae pobl yn Tsieina, fel ninnau, yn siarad am ddiogelu'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd ac maen nhw'n poeni am hyn cymaint â ninnau hefyd. Rydyn ni'n defnyddio'r lliw 'gwyrdd' wrth ddisgrifio pethau sy'n ystyriol o'r amgylchedd, ac mae pobl yn Tsieina yn gwneud yr un fath. Ond wrth gwrs, maen nhw'n dweud 绿色的 (lǜ sè de); Ailgylchu yw: 回收 (huí shōu) – ystyr y geiriau hyn yw: 'dychwelyd a chasglu'; Cynhesu byd-eang yw: 全球变暖 (quán qiú biàn nuǎn) ystyr llythrennol y geiriau hyn yw: 'y byd i gyd yn mynd yn dwym'.**

## Geirfa Teigr

Teigr

虎；老虎

hǔ；láohǔ

Teigr De Tsieina

华南虎

huá nán hǔ

## Geirfa'r Amgylchedd

Amgylchedd naturiol

自然环境

zì rán huán jìng

Diogelu

保护

bǎo hù

Mae'n rhaid inni ddiogelu'r amgylchedd naturiol

我们需要保护自然环境

wǒ men xū yào bǎo hù zì rán huán jìng

# Geirfa’r Amgylchedd

Anifeiliaid dan fygythiad

濒危动物

bīn wēi dòngwù

Gwyrdd

绿色的

lǜ sè de

Y dyfodol

未来

wèi lái

Gwarchodfeydd Bywyd Gwyllt

野生动物保护 区

yě sheng dōng wù bǎo hù qū

Ailgylchu

回收

huí shōu

Newid yn yr hinsawdd

气候变化

qì hòu biàn huà

Ecogyfeillgar

环保的

huán bǎo de

Llygredd

污染

wū rǎn

Cynhesu byd-eang

全球变暖

quán qiú biàn nuǎn

# Cynllun Gwers Barcutiaid Tsieineaidd

## Gwybodaeth gefndir i'w rannu gyda'ch disgyblion

Mae hedfan barcutiaid yn arfer poblogaidd iawn yn Tsienia. Credir mai yn Tsieina y cafodd y barcutiaid cyntaf eu dyfeisio a'u hedfan dros 2000 o flynyddoedd yn ôl. Roedd y rhai cyntaf yn hollol fflat ac wedi'i gwneud o ddefnyddiau oedd ar gael yn hawdd fel bambŵ, sidan a phapur. Mae hen ffynonellau Tsieineaidd yn disgrifio sut yr oedd barcutiaid yn cael eu defnyddio at bob math o ddibenion gan gynnwys mesur pellter, danfon negeseuon, rhoi arwyddion ac fel rhan o ymgyrchoedd milwrol. Roedd rhai barcutiaid yn ddigon mawr i gario pobl hyd yn oed! Yn ystod Rhyfel Chu-Han rhwng 203-202 Cyn yr Oes Gyffredin (BCE) fe gasglodd niwl trwchus yn yr awyr uwchlaw lluoedd y gelyn (Chu). Wrth weld y niwl, rhoddodd Zhang Liang, cadfridog lluoedd Han, orchymyn i'w filwyr hedfan barcutiaid mawr yn yr awyr uwchben milwyr Chu - gyda phlant yn eistedd ynddynt. Roedd y plant yn chwarae alawon traddodiadol o famwlad milwyr Chu ar ffliwtiau. Wrth glywed yr alawon, roedd milwyr Chu teimlo hiraeth mawr, ac fe wnaethon nhw ddianc o faes y gad heb ymladd!

Roedd yn arferiad i addurno'r barcutiaid a phaentio motiffau a chymeriadau mytholegol yn gywrain arnynt, ac mewn rhai ardaloedd byddent yn ychwanegu cortynnau a chwibannau i'r barcutiaid fel eu bod yn gwneud synau cerddorol wrth hedfan. Yn wreiddiol, roedd barcutiaid yn cael eu hystyried fel math o dechnoleg, ond yn raddol dechreuwyd gwerthfawrogi eu gwerth artistig arbennig a dechreuodd pobl eu cadw mewn casgliadau celf.

Lledodd yr arfer o hedfan barcutiaid gyda'r masnachwyr a deithiodd o Tsieinia i Gorea, ac yna ar draws Asia i India a gweddill y byd. Byddai pob ardal yn datblygu ei dull arbennig ei hun o addurno a defnyddio barcutiaid. Erbyn heddiw, mae gwyliau hedfan barcutiaid yn cael eu cynnal ledled Tsieina gydag amrywiaeth anhygoel o farcutiaid – pob math o gynlluniau a siapiau gan gynnwys pryfed, adar, pysgod aur a chymylau; ac wedi'u haddurno i edrych fel blodau, ystlumod, a phob math o batrymau gyda negeseuon i ddod â lwc dda i'w perchnogion. Mae barcutiaid sy'n edrych fel gwenoliaid yn boblogaidd yn Beijing, tra bod y barcutiaid sy'n cael eu hedfan yn Nantong yn enwog am eu chwibanau.


Rhowch gynnig ar greu ac addurno eich barcut Tsieineaidd dan do eich hunan gan ddefnyddio'r cyfarwyddiadau ar y daflen weithgaredd.

**Amcanion Dysgu:** Dysgu am hanes a thraddodiad creu a hedfan barcutiaid yn Tsieina, a chreu eich barcud dan do addurnedig eich hunan.

**Cysylltiadau Cwricwlwm:** Celf a Dylunio, Technoleg Dylunio, Hanes.

**Sgiliau Craidd a phriodoleddau:** Creadigrwydd a dychymyg, cydweithio a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, dinasyddiaeth.

**Paratoi ac adnoddau:** Bydd angen...papur sidan, cerdyn tenau, siswrn a glud, clip papur, hyd o gotwm, inciau neu baent a brws tenau ar gyfer yr addurno, defnyddiau wedi'u hailgylchu fel bagiau plastig, ffyn tenau, cortyn a thâp masgio.



Lledodd yr arfer o hedfan barcutiaid yn gyflym - o Tsieina ar draws Asia.

# Taflen weithgaredd
# Creu barcut dan do Tsieineaidd

## Bydd angen:

Papur sidan, cerdyn tenau, siswrn a glud, clip papur, hyd o gotwm, inciau neu baent a brwsh tenau ar gyfer yr addurno.

1. Plygwch ddarn o bapur sidan A4 yn ei hanner ar ei hyd.
2. Torrwch ddau siâp triongl allan ohono.
3. Agorwch y papur i weld siâp barcut traddodiadol; a rhowch y papur sbâr o'r neilltu.
4. Mesurwch ac yna torrwch ddau ddarn tenau o gerdyn. Gludwch nhw i'r papur ar onglau sgwâr i roi strwythur mwy cadarn i'r barcut.
5. Torrwch siâp hirsgwar bach (tua 6cm x 2cm) o gerdyn. Gwnewch ddau doriad bach ac yna plygwch y cerdyn yn ôl arno'i hun i greu ffrwyn y barcut.
6. Clymwch hyd o gotwm wrth glip papur, ac yna cysylltwch y clip papur wrth ffrwyn y barcut a'i lynnu wrth ganol y barcut – wrth y pwynt lle mae'r cerdyn wedi'i gysylltu.
7. Defnyddiwch y papur sidan sydd ar ôl i greu cynffon y barcut a gludiwch hwnnw i waelod y barcut.
8. Trowch y barcut drosodd, cymerwch frwsh tenau, a phaentiwch eich cynllun arno'n ofalus. Efallai y gallwch baentio'r arwydd Tsieinëeg am 'brenin' y dysgoch amdano yn y stori ar eich barcut – i ddathlu Blwyddyn y Teigr; neu efallai gallwch greu eich llun eich hun o deigr!

### Gweithgareddau ychwanegol

Gofynnwch i'r disgyblion ffeindio rhagor o wybodaeth am y gwahanol fathau o farcutiaid – fel barcutiaid fflat, barcutiaid bwa, barcutiaid bocs a rhai wedi'u llenwi ag aer. Esboniwch sut mae egwyddorion gwyddonol esgyniad, disgyrchiant a llusgiad yn galluogi gwrthrychau fel barcutiaid sy'n drymach nag aer i hedfan, a pham fod y gynffon yn elfen mor bwysig. Mewn grwpiau, annogwch y disgyblion i arbrofi gyda gwahanol siapiau a gwahanol ddefnyddiau wedi'u hail-gylchu fel bagiau plastig, cortyn a ffyn tenau – i gynllunio a chreu eu barcut awyr agored eu hunain. Trefnwch ŵyl hedfan barcutiaid i weld pa farcud sy'n hedfan orau.

**Gweithgareddau Ysgol Bartner**


Os oes gyda chi ysgol bartner, fe allech:

- dynnu ffotograffau o'ch barcutiaid a'u rhannu gan ddefnyddio'r hashnod #YearOfTheTiger



# Cyfarwyddiadau
# Sut i greu barcut dan do Tsieineaidd





# Cynllun gwers
# Llythyron o Tsieina

**Amcanion Dysgu:** Dysgu sut mae plant ledled Tsieina yn dathlu Gŵyl y Gwanwyn a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

**Cysylltiadau Cwricwlwm:** Cymraeg/Saesneg, Addysg Bersonol a Chymdeithasol a Dinasyddiaeth.

**Sgiliau Craidd a phriodweddau:** Cyfathrebu a chydweithio, Dinasyddiaeth, Llythrennedd Digidol.

**Paratoi ac adnoddau:** Bydd angen copïau o'r llythyron gan blant o Tsieina arnoch yn ogystal â chamerâu neu iPadiau.

**Esboniwch wrth y dosbarth fod gyda chi gasgliad o lythyron gan blant o Tsieina sy'n sôn am eu bywydau bob dydd, a sut maen nhw a'u teuluoedd yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Rhannwch y dosbarth i grwpiau bach a rhowch gopïau o rai o'r llythyron i bob grŵp. Dewiswch y llythyron mwyaf addas, yn eich barn chi, ar gyfer lefelau darllen eich disgyblion.**

Gofynnwch i'ch disgyblion ddarllen y llythyron fel grŵp a thrafod a nodi eu hymatebion i'r cwestiynau isod, cyn adrodd yn ôl wrth weddill y dosbarth.

- Beth yw enwau'r plant a ysgrifenodd y llythyron, ac ym mhle yn Tsieina maen nhw'n byw?
- Pa elfennau o ddathliadau'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Gŵyl y Gwanwyn maen nhw'n eu mwynhau'n fwyaf?
- Pa bethau yn eu bywydau nhw sy'n debyg i'ch bywydau chi, a pha bethau ydych chi'n meddwl sy'n wahanol?
- Beth oedd y wybodaeth fwyaf diddorol neu beth oedd y peth wnaeth eich synnu fwyaf wrth ddarllen y llythyron?
- Petaech chi'n cael gofyn cwestiwn i un o'r plant a ysgrifennodd y llythyron, beth fyddech chi'n ei ofyn?

Gofynnwch i'r disgyblion weithio gyda'i gilydd i ffeindio lleoliad y plant a ysgrifennodd y llythyron. Yna, gofynnwch iddynt naill ai ysgrifennu llythyr yn ôl at y plant yn Tsieina, neu greu cyflwyniad digidol byr am le maen nhw'n byw a sut maen nhw'n dathlu gŵyl arbennig – i'w rannu gyda gweddill y dosbarth. Dylent ddefnyddio meddalwedd creu cyflwyniadau arbennig fel PowerPoint, Prezi, Google Slides neu Photo Story i ddangos eu lluniau a rhannu eu gwybodaeth.



# Llythyron o Tsieina

Llythyron gan blant sy'n byw yn Tsieina




Annwyl ffrindiau,

Fy enw i yw Hu Oingyang, a fy enw Saesneg yw Judy. Dw i'n ferch o Tsieina. Dw i'n byw yn Beijing, prifddinas Tsieina. Dw i'n astudio yn Ysgol Gynradd Haidian Minzu. Dw i'n ddisgybl yn nosbarth 3 gradd 6.

Mae fy mywyd yn lliwgar. Mae llawer o ffrindiau gen i yn yr ysgol. Rydyn ni'n astudio a chwarae gyda'n gilydd drwy'r amser. Rydyn ni'n dîm cyfeillgar. Ar ôl ysgol mae fy mam yn paratoi cinio blasus i ni. Mae gen i deulu sy'n llawn o gariad. Rydyn ni'n caru'n gilydd yn fawr.

Yn Tsieina, ein gŵyl fwyaf pwysig yw Gŵyl y Gwanwyn. Dw i'n ei hoffi'n fawr iawn. Pam? Achos yn ystod Gŵyl y Gwanwyn mae aelodau fy nheulu yn treulio amser gyda'i gilydd. Rydyn ni'n siarad, bwyta bwyd blasus ac rydyn ni'n teimlo'n hapus iawn. Ar Nos Galan, mae ein teulu'n eistedd ar y soffa a gwylio 'Gala Gŵyl y Gwanwyn' ar y teledu. Pan mae cloch y Flwyddyn Newydd yn canu mae pobl yn bwyta twmpleni a thanio tân gwyllt. Fel plentyn, y peth dw i'n edrych ymlaen ato fwyaf yw derbyn llawer o amleni coch ac anrhegion. Mae'r amleni coch yn cynnwys arian lwcus gan fy mherthnasau. Fel arfer dw i'n hoffi ei gyfnewid am losin, tegannau a llawer o bethau eraill dw i eisiau.

Dw i'n caru fy mywyd. Dw i'n caru Tsieina!

Yn gywir,
Judy




Annwyl ffrindiau Saesneg,

Sut ydych chi? Dw i'n mynd i Ysgol Lleiafrif Ethnig Rhanbarth Haidian yn Beijing lle dw i'n hoffi chwarae 'Mynd' a gwneud caligraffeg gyda brwsh, a dw i'n mwynhau Celf, darllen, ac astudio Saesneg. Ar ôl ysgol dw i'n mynd i'r parc neu dw i'n mynd i dai fy ffrindiau i chwarae.

Mae diwedd y flwyddyn yn dod ac mae pob tŷ wedi'i addurno â llusernau ac yn llawn o ysbryd yr ŵyl. Ar Nos Galan, sef degfed diwrnod ar hugain mis olaf y calendr lloerol Tsieineaidd traddodiadol, mae'n arferiad i hongian addurniadau papur, a 福 (yr arwydd Tsieinëeg am lwc), a llusernau coch.

Dydy pobl byth yn blino ar weld y papur coch tywyll gyda'r llythrennau du sy'n cael ei hongian ar fframiau drysau ac mae ystyron gwahanol gan bob un o'r addurniadau papur hardd hyn sy'n cael eu llunio mor ofalus.

Yn y nos mae pawb yn dod at ei gilydd i fwyta, ac mae arogl cig a gwîn ymhob man. Ac wrth gwrs, allwch chi ddim anghofio am y tân gwyllt. Ar ôl i chi danio'r ffiws mae'r tân gwyllt yn ffrwydro a dod yn fyw. Mae rhai ohonyn nhw'n ffurfio siâp tusw anferth o flodau, mae rhai yn gadael trywydd o dân, ac mae rhai eraill yn neidio o gwmpas mor gyflym mae'n anodd eu dilyn. Ddydd Calan, yn y nos, rydyn ni'n mynd i ymweld â thrigolion y gymdogaeth, ac mae pawb yn rhoi croeso gwresog iawn i'w gwesteion.

Yn olaf, dw i eisiau dymuno iechyd da a bywyd hir i chi. Blwyddyn Newydd Dda!

Ma Yuemin

# Llythyron o Tsieina



Annwyl ffrind,

Ni Hao! (你好, sy'n golygu 'Helo' mewn Tsieinëeg).

Fy enw i yw Rebecca Wang. Dw i'n ddisgybl ysgol o Shanghai yn Tsieina. Dw i'n ddisgybl Gradd 8 mewn ysgol ganol yn Shanghai. Mae'n siŵr eich bod chi'n chwilfrydig am fywyd bob dydd disgybl ysgol yn Tsieina.

Rydyn ni'n cael wyth o wersi bob dydd, ac mae pob un ohonyn nhw'n lliwgar ac yn ddiddorol. Rydyn ni'n gallu cymryd rhan mewn amryw o wersi allgwricwlaidd hefyd, fel dosbarthiadau caligraffeg, dysgu chwarae offerynnau Tsieineaidd traddodiadol, clybiau drama, clybiau chwaraeon ac yn y blaen. Yn yr ysgol, yn ogystal â Saesneg rydyn ni'n dysgu ieithoedd eraill hefyd fel Ffrangeg a Rwsieg.

Rydyn ni'n dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, sydd hefyd yn cael ei galw'n 'Ŵyl y Gwanwyn'. Ar noswyl y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, mae'n arferiad i gael cinio mawr gyda'r teulu – yn debyg i'r hyn yr ydych chi'n ei wneud adeg y Nadolig. Rydyn ni naill ai'n mynd allan i dŷ bwyta neu'n cael y cinio gartref. Mae holl aelodau'r teulu estynedig yn dod at ei gilydd ac yn mwynhau'r bwyd blasus. Ar ôl gorffen y cinio, mae' n bryd am y twmpleni! Os ewch chi i Tsieina mae'n rhaid i chi flasu twmpleni achos maen nhw'n un o'n bwydydd traddodiadol ac maen nhw'n arbennig o flasus.

Yn ogystal â mwynhau cinio gyda'r teulu, rydyn ni hefyd yn tanio tân gwyllt a chraceri tân. Mae yna stori sy'n esbonio'r arfer yma. Unwaith amser maith yn ôl, roedd bwystfil drwg iawn o'r enw 'Blwyddyn'. Ddydd Calan, byddai'r bwystfil drwg yn sleifio i iard gefn pobl a bwyta eu hanifeiliaid fferm, a hyd yn oed yn bwyta plant bach hefyd! Penderfynodd y bobl fod yn rhaid cael gwared arno. Felly, fe wnaethon nhw danio tân gwyllt a chraceri tân i'w yrru i ffwrdd. Cododd y sŵn mawr a'r fflachiadau tanllyd ofn ar y 'Flwyddyn' ac fe redodd i ffwrdd a diflannu am byth. Ac ers hynny, mae pobl wedi bod yn tanio tân gwyllt a chraceri tân adeg y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r lliw coch yn symbol o'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Yn ystod yr Ŵyl mae plant yn hoffi gwisgo dillad coch ac esgidiau coch. Maen nhw hefyd yn derbyn 'pecynnau coch' gan eu perthnasau ar ddiwrnod yr Ŵyl. Mae arian yn cael ei roi yn y pecynnau yma – i ddymuno lwc dda.

Os byddwch chi'n ymweld â Tsieina rhyw ddydd, byddaf yn falch i'ch tywys o gwmpas. Croeso i Tsieina!

Yn gywir,
Rebecca

# Llythyron o Tsieina




Shwmae, Helo bawb, Liu Haoran ydw i o Ranbarth Haidian yn Beijing.

Dw i'n ddisgybl blwyddyn pedwar gradd pump.

Ymhen rhai misoedd, bydd hi'n adeg Gŵyl y Gwanwyn yma. Gŵyl y Gwanwyn yw'r enw sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Yn Tsieina, mae gyda ni gylchdro o un deg dau o flynyddoedd, gydag arwydd gwahanol ar gyfer pob blwyddyn. Mae'r Sidydd Tsieineaidd yn cynnwys un deg dau o arwyddion sef, 'Llygoden Fawr, Ychen, Teigr, Cwningen, Draig, Neidr, Ceffyl, Dafad, Mwnci, Ceiliog, Ci a Mochyn'. Ces i fy ngeni yn 2006, sef Blwyddyn y Ci. Felly fy arwydd i ydy'r Ci.

Byddaf yn treulio'r ŵyl bwysig yma gyda fy nheulu. Rydyn ni'n hapus iawn yn ystod yr adeg yma. Rydyn ni'n tanio tân gwyllt a chraceri tân, a dod at ein gilydd i fwyta jiˇaozi (twmpleni traddodiadol o Beijing) ac ymweld â'n cymdogion. Mae hyn yn gwneud argraff fawr arna i bob tro. Dw i'n deffro'n gynnar yn y bore i sŵn y craceri tân. Y peth cyntaf dw i'n ei weld yw'r arwydd 福 wedi'i hongian ben i waered ar y drws i gynrychioli Blwyddyn Newydd heddychlon a ffyniannus. Mae hwn yn beth eithaf anodd ei esbonio. Ystyr yr arwydd 'fú' yw ffortiwn. Yr enw sy'n cael ei roi ar arwydd 'fú' â'i ben i waered yw 'fúdào' - sy'n swnio'n debyg i'r geiriau 'daw lwc dda'. Felly, mae pobl yn credu fod ei hongian ar y drws yn dod â lwc dda. Yn olaf, amser cinio canol dydd ar Nos Galan rydyn ni'n bwyta jiˇaozi. Maen nhw'n arbennig o flasus ac mae pawb yn dwlu eu bwyta.

Mae'r arfer o danio tân gwyllt yn rhywbeth diddorol iawn. Yn ôl traddodiad, rydyn ni'n tanio tân gwyllt a chraceri tân i godi ofn ar y bwystfilod a ddaeth ar Nos Galan i chwalu ac ysbeilio eiddo pobl a'u gyrru i ffwrdd. Y dyddiau hyn, pan mae pawb yn y ddinas yn tanio tân gwyllt mae'r holl wreichion ysgarlad yn blodeuo'n anferth yn yr awyr – mor hardd ag unrhyw beth y gallech ei ddychmygu.

Mae treulio amser gyda ffrindiau a theulu yn beth da. Pan fyddaf yn derbyn rhoddion Blwyddyn Newydd gan oedolion, dw i'n teimlo'n hapus mewn ffordd nad ydw i'n gallu esbonio.

Byddwn yn falch o'ch croesawu i ddod i Tsieina i ymuno â ni yng Ngŵyl y Gwanwyn.

Liu Haoran.



# Rhagor o wybodaeth

**Rydyn ni'n gobeithio fod eich disgyblion wedi mwynhau gweithgareddau'r pecyn yma. Mae llawer o ffyrdd eraill y gallwch gymryd rhan mewn prosiectau rhyngwladol gyda Tsieina a gwledydd eraill:**

### Feindio ysgol bartner

Gall partneriaethau ysgol rhyngwladol fod yn ffordd ardderchog o ysbrydoli disgyblion drwy ddod â'r byd i'r ystafell ddosbarth drwy weithgareddau dysgu ar y cyd sy'n dod ag ieithoedd yn fyw. Maent hefyd yn cynnig cyfle i athrawon rannu profiadau a dysgu arferion newydd gan gydweithwyr mewn gwledydd eraill. Mae popeth sydd ei angen arnoch i ffeindio a gweithio gydag ysgolion o'r un anian â chi ledled y byd ar ein gwefan, Partner Finder. https://school-partner-finder.britishcouncil.org/

### Adnoddau

Cymerwch gip ar ein hadnoddau dysgu rhyngwladol gan gynnwys gweithgareddau dosbarth a chynlluniau gwersi, yma: https://www.britishcouncil.org/school-resources

### Dysgu Tsieinëeg

Ydych chi wedi ystyried croesawu Cynorthwyydd Iaith Tsieinëeg i'ch ysgol? Mae'n hawdd i'w drefnu a gallwch rannu'r cynorthwyydd gydag ysgolion lleol eraill. Mae gwybodaeth am Raglen Astudiaethau Cynradd Sefydliad Confucius ar gael yma: http://bit.ly/2cVRnkl Am ragor o wybodaeth am gyfleoedd i ddysgu Tsieinëeg yn eich ysgol, cysylltwch â Sefydliad Confucius ar gyfer Ysgolion – Sefydliad Addysg Coleg Prifysgol Llundain (UCL): chinesenetworks@ucl.ac.uk

### Ennill cydnabyddiaeth

Ymunwch â'n cynllun nodedig – Gwobr Ysgolion Rhyngwladol y British Council – i ennill achrediad am eich gwaith rhyngwladol: https://www.britishcouncil.org/school-resources/accreditation/international-school-award

Cewch wybodaeth am sut mae'r Rhaglen Rhagoriaeth mewn Mandarin (Mandarin Excellence Programme) yn gweithio mewn ysgolion uwchradd yn Lloegr yma: https://bit.ly/30JDKDT

Mae rhagor o wybodaeth am ŵyl Shropshire Bookfest yma: https://www.shropshirebookfest.co.uk/

BRITISH COUNCIL

A pheidiwch anghofio, blwyddyn nesa yw

# Blwyddyn y______?